



Adroddiad gan Banel Heddlu a Throseddu De Cymru

PWNC:

Penodi Mr Jeremy Vaughan fel Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru

DYDDIAD:

3 Tachwedd 2020

PENDERFYNIAD:

Argymhellodd y Panel fod y Comisiynydd yn penodi Mr Jeremy Vaughan fel Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru.

CEFNDIR:

Mae dyletswydd statudol gan y Panel o dan Ddeddf Diwygio a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 a Rheoliadau cysylltiedig i:

- a) Adolygu ac adrodd yn ôl ar benodiad arfaethedig Prif Gwnstabl
- b) Gwneud argymhelliad ar y penodiad arfaethedig

Gall y panel hefyd, drwy fwyafrif o ddwy ran o dair, rhoi feto ar y penodiad arfaethedig.

PENODIAD ARFAETHEDIG:

Ar 26 Hydref 2020, darparwyd adroddiad i'r Panel gan y Comisiynydd cyn bod y Panel yn cyfarfod ar 3 Tachwedd 2020. Roedd yr adroddiad a'r ddogfen atodedig â'r teitl "Gwybodaeth i Ymgeiswyr am Brif Gwnstabl" yn gosod allan ymhlith pethau eraill y Swydd Ddisgrifiad, Proffil Rôl Manyleb y Swydd a'r broses recriwtio ar gyfer swydd y Prif Gwnstabl. Roedd hefyd yn cynnwys gwybodaeth gefnogol am Heddlu De Cymru ar gyfer ymgeiswyr. Roedd yr adroddiad hefyd yn esbonio'r broses recriwtio a dethol ar gyfer swydd y Prif Gwnstabl. Casgliad yr adroddiad oedd datganiad yn dweud fod y Comisiynydd yn cynnig penodi Mr Jeremy Vaughan fel Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru.

Gwnaeth y Panel gwrdd ar 3 Tachwedd 2020 ac arwain gwrandawriad cadarnhau fel y rhagnodwyd gan Atodlen 8 Deddf Diwygio a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.

Gwnaeth y Panel ystyried yr adroddiad a gwrando ar gyflwyniadau oddi wrth y Comisiynydd, y Dirprwy Gomisiynydd, Pennaeth Staff, yr Aelod Annibynnol Gill Lewis a'r ymgeisydd enwebedig Mr Jeremy Vaughan.

Ar ôl ystyried yr un peth ac ar ôl gofyn cwestiynau am y penodiad arfaethedig, yn benodol y broses o benodi, roedd y Panel yn fodlon fod y Comisiynydd wedi cydymffurfio ag Atodlen 8(3) Deddf Diwygio a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.

Gwnaeth adroddiad y Comisiynydd ddarparu gwybodaeth fanwl i'r Panel am y broses ddethol a chraffu. Yn yr adroddiad darparodd y Comisiynydd gopi o adroddiad i'r Panel gan Mrs Gill Lewis, Aelod Annibynnol, mewn cydymffurfiaid â Chylchlythyr y Swyddfa Gartref 13/2018 sy'n datgan y dylai o leiaf un aelod o'r panel penodi fod yn aelod annibynnol. Gwnaeth Mrs Lewis gadarnhau fod y broses gwneud penderfyniadau'n ymddangos yn agored ac yn deg, a bod ymdrech dda wedi ei gwneud i geisio cael yr amrywiaeth orau o ymgeiswyr a oedd ar gael. Yn glir seiliwyd hyn ar deilyngdod, gyda phenderfyniadau'n cael eu gwneud ar ôl dadansoddi'r dystiolaeth yn ofalus.

Cafwyd cyflwyniad gan Mr Vaughan a gofynnodd y Panel gwestiynau i Mr Vaughan.

CASGLIAD:

Roedd y Panel yn fodlon fod y Comisiynydd wedi ymgymryd â phroses penodi trylwyr, gwrthrychol, yn seiliedig ar deilyngdod ac yn deg a thryloyw a bod yr ymgeisydd Mr Jeremy Vaughan yn bodloni'r safonau gofynnol ar gyfer y swydd o Brif Gwnstabl.

ARGYMHELLIAD:

Felly gwnaeth y panel argymell yn unfrydol fod y Comisiynydd yn penodi Mr Jeremy Vaughan fel Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru.